# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

# ADOLYGIAD O WASANAETH YMGYNGHOROL CYFRANOGIAD TENANTIAID YNG NGHYMRU

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried:

- yr adroddiad, 'Adolygiad o Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) yng Nghymru', a gwblhawyd ym mis Ebrill 2002 (gweler Grynodeb Gweithredol yr Adroddiad yn Atodiad 1);
- ymateb TPAS Cymru i'r Adroddiad (yn Atodiad 2); a
- y cyngor a roddwyd (ym mharagraffau 13 – 14 o'r papur hwn) a'r camau nesaf (ym mharagraffau 15 – 20).

## Argymhelliad

2. Fod y Pwyllgor yn ystyried y papur hwn ac yn cyflwyno ei sylwadau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

## Amseru

3. Wedi ystyried barn y Pwyllgor ar y papur hwn, bydd swyddogion y Gyfarwyddiaeth Dai yn dechrau gweithio gyda TPAS i weithredu argymhellion yr Adolygiad yn ddiweddarach yn y mis.

## Cefndir

### TPAS Cymru

4. Mae TPAS Cymru yn sefydliad dielw a sefydlwyd i hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid mewn tai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r sefydliad yn darparu cyngor, gwybodaeth a rhaglenni hyfforddi sydd wedi eu llunio i alluogi tenantiaid i reoli eu cartrefi a'u hystadau. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu partneriaethau rhwng landlordiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a'u tenantiaid.

5. Mae TPAS Cymru yn gyfan gwbl ddibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad am ei gyllid craidd ac mae hefyd yn derbyn cyllid prosiect (dan Raglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol). Isod ceir

manylion cyllid blaenorol a chyllid arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad:

| | **Cyllid craidd (£)** | **Cyllid prosiect (£)** | **CYFANSWM (£)** |
|---|---|---|---|
| **2001-02** | 238,492 | 32,213* | 270,705 |
| **2002-03** | 244,454 | 35,000~ | 279,454 |

* dyranwyd y cyllid hwn fel a ganlyn:

- £20,637 ar gyfer hyfforddiant Gwerth Gorau i denantiaid;

- £6, 020 i gefnogi cynadleddau cyfranogiad tenantiaid; a

- £5,558 i gefnogi seminar i denantiaid ar drosglwyddo stoc.

~ caiff y £35,000 hwn ei ddyrannu tuag at ddau brosiect: y cyntaf i ddatblygu arweiniad arfer da ar "Siopa Cudd" fel dull o brofi a gwella ansawdd gwasanaethau. Yr ail fydd cynnal arolwg ar y nifer o denantiaid a grwpiau tenantiaid sydd â dulliau newydd o gyfathrebu, a sut y caiff hyn effaith ar sut y mae landlordiaid yn cyfathrebu â'u tenantiaid (canlyniad y prosiect fydd arweiniad ar arfer gorau i denantiaid a landlordiaid).

6. Ar ben hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried 3 cais pellach gan TPAS ar gyfer cyllid i brosiectau Grant Rheoli Tai Cymdeithasol.

Cefnogaeth arall gan Lywodraeth y Cynulliad i Gyfranogiad a Hyfforddi Tenantiaid

7. Yn ogystal ag ariannu TPAS, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystod 2002-03 yn cefnogi cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru trwy'r dulliau canlynol: cyllid craidd i Ffederasiwn Tenantiaid Cymru; Rhaglen Grantiau Galluogi Tenantiaid yng Nghymru; bwrsariaeth i denantiaid fynychu cyrsiau yn y Ganolfan Adnoddau Tenantiaid Genedlaethol; a 6 prosiect cyfranogiad tenantiaid lleol. Mae tri chynnig pellach am gyfrangoaeth tenantiaid lleol, ar gyfer cyllid Grant Rheoli Tai Cymdeithasol 2002-03, yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Y pwrpas a'r dull o Adolygu TPAS

8. Mae TPAS Cymru wedi derbyn arian y Swyddfa Gymreig / Llywodraeth y Cynulliad ers ei ddechreuad ym 1988 ond nid yw erioed wedi cael adolygiad trylwyr o'i weithdrefnau busnes a'i weithdrefnau gweinyddol, er y cynhelir cyfarfodydd gyda'r Gyfarwyddiaeth Dai i fonitro gwariant Grant Rheoli Tai Cymdeithasol TPAS. Cynlluniwyd yr adolygiad i helpu'r sefydliad i

ddefnyddio cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad mor gost effeithiol ac effeithlon â phosibl. Ar ben hyn, mae’n ofynnol i bob sefydliad sy’n derbyn arian craidd i gael eu hadolygu pob pum mlynedd o leiaf.

9. HACAS Chapman Hendy a gynhaliodd yr Adolygiad ar ran y Gyfarwyddiaeth Dai. Comisiynwyd y gwaith fel rhan o Raglen Ymchwil Tai 2001-02 Llywodraeth y Cynulliad a chynhaliwyd yr adolygiad gan gwmni o’r tu allan gan nad oedd yr arbenigedd na’r gallu o fewn y Gyfarwyddiaeth Dai i wneud y gwaith.

10. Ceir briff o’r adolygiad yn Atodiad 3. Wrth gynnal y gwaith, gofynnodd HACAS Chapman Hendy am wybodaeth a sylwadau gan aelodau a staff TPAS, staff y Gyfarwyddiaeth Dai, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sefydliadau tai sy’n derbyn cymorth, a chymdeithasau a ffederasiynau tenantiaid.

**Casgliadau’r Adolygiad**

11. Mae casgliadau cyffredinol HACAS Chapman Hendy yn rhai positif:

*"Mae gan TPAS swyddogaeth werthfawr wrth barhau i ddatblygu polisïau ac*

*arferion Cymru gyda chyfranogiad tenantiaid."*

*"Mae wedi denu a chynnal cefnogaeth aelodau o’r rhan fwyaf o*

*gynghorau Cymru, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a grwpiau*

*tenantiaid".*

*"Caiff TPAS barch mawr fel ffynhonnell o wybodaeth a chyngor, ac wrth hybu*

*cyfle cyfartal ymysg tenantiaid".*

*"Ystyrir TPAS yn gyffredinol fel sefydliad democrataidd sy’n llwyddo yn ei*

*swyddogaeth o ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad."*

*"Roedd defnyddwyr yn llawn edmygedd o’r gwasanaethau i ddatblygu*

*cyfranogiad tenantiaid, cytundebau tenantiaid, cefnogi grwpiau tenantiaid a*

*hyfforddiant i denantiaid."*

*"Mae TPAS yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed, gan roi o'u hamser eu hunain yn aml i gynnal y sefydliad."*

*"Mae'r Cyfarwyddwr, gyda chefnogaeth lawn y Pwyllgor Rheoli, yn gwella polisïau a gweithdrefnau."*

12. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad yn nodi'r materion hynny y mae'n amlwg bod angen edrych arnynt a'r meysydd sydd angen eu datblygu a'u gwella.

**Argymhellion yr Adolygiad**

13. Mae'r Adroddiad yn cynnwys rhestr o argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad a TPAS. Mae'r tabl canlynol yn rhoi amlinelliad o'r argymhellion i'r Cynulliad a rhoddir cyngor ar a ddylid eu gweithredu ai peidio. Mae'r cyngor hwn yn ystyried ymateb TPAS i'r Adroddiad ar yr Adolygiad.

| | **Argymhellion** | **Cyngor** |
|---|---|---|
| 1 | Angen nodi'r canlyniadau sydd i dderbyn cyllid craidd gan Lywodraeth y Cynulliad | Derbyn. I'w weithredu, ar y cyd â TPAS, erbyn mis Mawrth 2003. |
| 2 | Rhoi arweiniad a chyngor i TPAS Cymru ar systemau monitro a gwerthuso perthnasol. | Derbyn. Darparu arweiniad a chyngor erbyn Hydref 2002. |
| 3 | Defnyddio datganiad ROAME (Rhesymeg, Amcanion, Arfarnu, Monitro a Gwerthuso) addas ar gyfer ei lythyr cyllido blynyddol i TPAS Cymru. | Derbyn. Paratoi datganiad ROAME ar gyfer llythyr cyllid craidd 2003-04. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Byddai'n ddefnyddiol i gynnal gwaith ymchwil ar y pwnc cyffredinol o fanteision cyfranogiad gan denantiaid yng Nghymru er mwyn disgrifio swyddogaeth TPAS Cymru yn fanylach. | Derbyn. Byddai'n fanteisiol i gynnal adolygiad o fanteision cyfranogaeth tenantiaid yng Nghymru a'r DU, gyda'r bwriad o dynnu sylw at feysydd lle y gellid datblygu gweithgareddau TPAS. Byddai'n bosibl dechrau ar adolygiad desg (h.y. adolygiad o'r deunydd darllen) yn ystod Hydref 2002 gan roi'r cyfle i TPAS gynghori ar gwmpas yr adolygiad.<br><br>Ystyrir canlyniad yr adolygiad i benderfynu a oes angen gwaith ymchwil newydd. |
| 5 | Archwilio a gwella y sianelau cyfathrebu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a TPAS Cymru. | Derbyn, trwy:<br><br>• ddechrau cyfres o gyfarfodydd chwarterol rhwng swyddogion y Gyfarwyddiaeth Dai a TPAS Cymru (o fis Mehefin 2002); ac<br>• enwebu swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Dai fel "prif gyswllt" Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer TPAS. |
| 6 | Secondio swyddog i TPAS Cymru am gyfnod o dri mis o bosibl i gael gwell dealltwriaeth o'r awyrgylch y mae TPAS Cymru yn gweithredu o'i fewn. | Cyfarwyddwr Tai Llywodraeth y Cynulliad a Chyfarwyddwr TPAS i edrych ar yr argymhelliad hwn. |
| 7 | Nodi yn ei lythyr grant prif feysydd y gweithgareddau a gefnogir gan ei gyllid craidd. | Gweithredwyd hyn eisoes gyda'r llythyr o gynnig am grant cyllid craidd 2002-03. |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Rhoi amlinelliad clir o’r telerau a’r amodau sy’n gysylltiedig â’i arian grant. | Derbyn. Bydd y llythyr sy’n cynnig grant ar gyfer 2003-04 yn datgan yn glir y cynnyrch a’r canlyniadau y llwyddir eu cael o ganlyniad i arian Llywodraeth y Cynulliad. (Bydd hyn yn gyfochrog â’r set o delerau ac amodau cyffredinol sy’n gyffredinol berthnasol i bob grant a ddyrennir dan Raglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol). |
| 9 | Comisiynu adolygiad pellach o TPAS Cymru mewn 12-18 mis i edrych ar ganlyniadau gweithredu’r argymhellion hyn, os y cymeradwyir hwy. | Caiff perfformiad TPAS Cymru ei adolygu’n fewnol gan swyddogion y Cynulliad ym mis Mawrth 2004 (blwyddyn lawn wedi gweithredu prif argymhellion yr Adolygiad). |

14. Wrth droi at yr argymhellion ar gyfer TPAS, mae TPAS a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno’n fras gyda’r rhain ac am drafod cynllun gweithredu.

**Y Camau Nesaf**

15. Er mwyn gweithredu’r argymhellion, mae TPAS am gynnal tri adolygiad gyda chymorth ymgynghoriaeth ("cyfrifo a chofnodi rheolaeth ariannol", "strwythur sefydliadau" a "gwasanaethau i aelodau"). Maent yn gofyn i "*Lywodraeth y Cynulliad ystyried ariannu cyfraniad yr ymgynghoriaeth i’r adolygiadau pwysig hyn i sicrhau dyfodol TPAS Cymru*." Cynigir bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cyfarfod gyda TPAS i drafod y mater hwn.

16. O ran lefelau ariannu, cynigir bod cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i TPAS yn parhau ar y lefelau arfaethedig presennol wrth i TPAS a swyddogion y Gyfarwyddiaeth Dai weithio tuag at weithredu argymhellion yr Adolygiad. Dylid adolygu y lefelau ariannu ym mis Mawrth 2004 (blwyddyn lawn wedi gweithredu prif argymhellion yr Adolygiad) ac yn flynyddol wedi hynny. Erbyn mis Mawrth 2004, bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi’n glir pa weithgareddau y mae ei gyllid craidd yn ei gefnogi ac wedi llwyddo i fesur y canlyniadau a gafwyd o ganlyniad i’r ariannu hwn yn 2003-04.

17. Yng nghyd-destun polisïau ehangach, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu adolygu’r rhesymeg sy’n sail i’w bolisïau cyfranogiad/galluogi tenantiaid, rhaglenni tenantiaid a chyllid. Y prif nod fydd pennu’r canlyniadau tymor hir y mae Llywodraeth y Cynulliad am eu gweld e.e.:

- disgrifio’r manteision sydd i’w cael o gyfranogiad a chynnwys tenantiaid mewn penderfyniadau ar strategaethau tai lleol a thai yn y gymdogaeth, opsiynau buddsoddi,

gwasanaethau tai a phrosiectau cymunedol; ac
- asesu'r math a'r lefel o weithgaredd sydd ei angen i gael y manteision hyn a chost hynny.

18. Y bwriad yw i'r Adolygiad hefyd gwmpasu archwiliad o'r posibilrwydd a'r manteision posibl o gyflwyno "Safon Ansawdd Cyfranogiad Tenantiaid".

19. Byddai'r adolygiad polisi arfaethedig hwn yn cael ei dderbyn yng nghyd-destun y Strategaeth Dai Genedlaethol, "Cartrefi Gwell", gan gydnabod y dylai polisïau newydd geisio gwneud cyfraniad positif i wireddu gweledigaeth "Cartrefi Gwell" ac i gyrraedd safon uchel ym mhob agwedd o ddarparu, rheoli a datblygu tai yng Nghymru.

20. Yn olaf, bwriedir cynnal yr adolygiad trwy broses o ymchwil ac ymgynghori gyda landlordiaid a thenantiaid. Mae'n arbennig o bwysig bod tenantiaid yn ganolog i unrhyw adolygiad, a'u bod yn cymryd rhan uniongyrchol yn rheolaidd.